Cyngor Bro Llanllwni
Adroddiad Cyfarfod Ionawr 2025

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Roedd y Clerc wedi rhoi poster o'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

PLISMONA
Nid oedd heddwas yn bresennol yn y cyfarfod.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi. Soniwyd bod angen sylw manwl i'r cynllun i blannu coed ar y cae chwarae yn ystod Gwanwyn 2025.
Cafwyd cadarnhad nad oedd angen caniatâd cynllunio i osod caban ar y cae.

CEISIADAU CYNLLUNIO
Nodwyd ceisiadau am ddatblygiadau arfaethedig yn Cefncoed Uchaf, Nant Hendre, Newgate.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILYDD
Cafwyd cadarnhad bod y diffibrilyddion ar safle Capel Nonni â T.L.Thomas wedi cael eu harchwilio'n fanwl ar 02 Rhagfyr 2024.

CYFLWR Y FFYRDD
Nodwyd cyflwr difrifol y ffyrdd ger Pen-rhiw, Lluest, Ysgol Llanllwni, Bryn-ceirch, Bryn, Maesnonni, Crossroads – yr Eglwys .

CROESFFORDD TEGFAN – PANTLLYN – PARK LANE:
Mae ceir yn parcio bob ochr i'r groesffordd ac yn rhwystr wrth ymuno â'r A485.

PENDERFYNWYD CEFNOGI'R CANLYNOL:
Gwersyll yr Urdd Llangrannog, Cymorth Cancr, Ysgol Gynradd Llanllwni.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.
Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni
nos Lun 10 Mawrth 2025 am 8yh.